

**Fframwaith
Rheoleiddio
Arbennig:
Cymwysterau
Cyffredinol –
Canllawiau
COVID-19**

AWST 2020



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod GQCov4	4
	Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau.....	4
3	Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod GQCov5	6
	Y data anghywir.....	6
	Gwybodaeth Anghywir gan y Ganolfan.....	6
	Setiau data anghywir.....	7
	Gwallau mewn setiau data	8
	Enghreifftiau eraill o'r data anghywir – achosion eithriadol	9

1 Cyflwyniad

- 1.1 Ar 29 Mehefin 2020, pennwyd a chyhoeddwyd ein Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol – Amodau a Gofynion Covid-19¹. Mae'r fframwaith arbennig hwn yn nodi ein gofynion rheoleiddio ar gyfer CBAC mewn perthynas â'r cymwysterau cyffredinol yr effeithir arnynt yn ystod pandemig Covid-19².
- 1.2 Y cymwysterau hyn yr effeithir arnynt yw:
- Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
 - Cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol (UG) Cymeradwy;
 - Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
 - Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru;
 - Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru³ yn unig.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i helpu CBAC i gydymffurfio â dau o'r Amodau newydd hyn. Mae'r rhain fel a ganlyn:
- Amod GQCov4 - Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau, ac
 - Amod GQCov5 – Apeliadau.
- 1.4 Er nad yw hon yn Ddogfen Reoleiddio⁴, disgwylir i CBAC roi sylw dyladwy i'r canllawiau hyn. Nid cyfres arall o reolau yw'r canllawiau, ac nid y dulliau gweithredu a nodir ynddynt yw'r unig ffordd o gydymffurfio. Fodd bynnag, os yw CBAC yn dewis defnyddio dull gwahanol, mae angen iddo allu egluro pam y mae wedi gwneud hynny.
- 1.5 Gallai'r ddogfen ganllawiau hon hefyd fod o ddiddordeb i ddysgwyr, canolfannau, rhieni a gofalgwyr.

¹ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/fframwaith-rheoleiddio-arbennig-gg/>

² CBAC yw'r unig gorff dyfarnu cydnabyddedig sy'n cynnig y cymwysterau yr effeithir arnynt ar hyn o bryd.

³ CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

⁴ Dogfen Reoleiddio, neu ran o Ddogfen Reoleiddio, sy'n ymddangos mewn dogfen o'r enw'r 'Rhestr Dogfennau Rheoleiddio', y gellir ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru ac a all gael ei hamrywio a'i disodli gan Cymwysterau Cymru o bryd i'w gilydd.

2 Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod GQCov4

Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

- 2.1 Mae Amod GQCov4 yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC fod â threfniadau ar waith i ddarparu digon o wybodaeth ynghylch cyfrifo'r canlyniadau yr haf hwn i Ganolfannau sy'n ystyried a ddylid gwneud apêl ar ran un neu fwy o Ddysgwyr ai peidio.
- 2.2 Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r hyn a ystyrir yn wybodaeth ddigonol pan fydd Canolfan yn gwneud cais am wybodaeth o dan yr Amod hwnnw.
- 2.3 Pan fo cais am wybodaeth yn cael ei wneud, rhaid i CBAC ddarparu digon o wybodaeth i ganiatáu i Ganolfan adolygu'r data a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo canlyniadau, ac i gymharu'r data hwnnw â'r wybodaeth a gedwir gan y Ganolfan, er mwyn gwerthuso a oes unrhyw un o'r seiliau ar gyfer apêl a nodir yn Amod GQCov5.1 yn berthnasol i ganlyniad Dysgwr. Dylai hyn ganiatáu i CBAC ganolbwyntio adnoddau ar ddatrys yr achosion hynny lle gallai gwall fod wedi digwydd yn brydlon ynghyd â lleihau nifer yr apeliadau diangen.
- 2.4 Bydd gwybodaeth ddigonol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r Ganolfan berthnasol a'r pwnc⁵:
- (a) graddau asesu'r ganolfan⁶ a gwybodaeth trefn restrol fel y'u cofnodwyd ac a ddefnyddiwyd gan CBAC at ddibenion cyfrifo canlyniadau yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod GQCov3.2(a)(i);
 - (b) data hanesyddol Dysgwyr ar gyfer y flwyddyn / blynyddoedd perthnasol a ddelir gan CBAC ac a ddefnyddiwyd at ddibenion cyfrifo canlyniadau yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod GQCov3.2(a)(i);
 - (c) proffil cyrhaeddiad blaenorol carfan 2020 a phroffiliau cyrhaeddiad blaenorol carfannau blaenorol perthnasol a ddelir gan CBAC ac a ddefnyddiwyd at ddibenion cyfrifo canlyniadau yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod GQCov3.2 (a)(i);
 - (d) i'r graddau y mae'r wybodaeth ar gael i CBAC –
 - i. enw a, lle y'i defnyddir, dynodwr ymgeisydd unigryw pob Dysgwr y defnyddiwyd data hanesyddol Dysgwr ar ei gyfer i gyfrifo canlyniadau, a

⁵ Yn y ddogfen ganllaw hon mae i ' pwnc ' yr un ystyr ag yn y gofynion a gyhoeddir o dan amod GQCov 3.2(a)(i).

⁶ Mae Graddau Asesu Canolfannau fel y'u diffinnir yn ein cyhoeddiad 'Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC): Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau'

ii. enwau pob un o'r Dysgwyr, gan gynnwys o garfan 2020, y defnyddiwyd data cyrhaeddiad blaenorol ar eu cyfer i gyfrifo'r canlyniadau.

- 2.5 Pan fydd CBAC yn darparu unrhyw ran o'r wybodaeth hon yn rhagweithiol i Ganolfan ochr yn ochr â chanlyniadau, ni fydd angen i Ganolfannau ofyn amdani, nac i CBAC ei darparu eto pan wneir cais o dan Amod GQCov4.
- 2.6 Pan wneir cais o'r fath, dylai CBAC ddarparu gwybodaeth o'r fath a amlinellir uchod nad yw eisoes wedi'i darparu i'r Ganolfan.
- 2.7 Er nad yw'n ofynnol o dan yr Amod, mewn achosion priodol, gall CBAC hefyd ystyried y dylid datgelu gwybodaeth bellach i'r Ganolfan i'w chynorthwyo i benderfynu a ddylid cyflwyno apêl. Os bydd Canolfan yn egluro yn ei chais am wybodaeth pam neu ble y mae'n ystyried y gallai gwall fod wedi'i wneud, bydd CBAC yn gallu yn fwy abl i adnabod yn brydlon a allai darparu gwybodaeth neu eglurhad pellach gynorthwyo'r Ganolfan.
- 2.8 Unwaith y bydd CBAC wedi darparu gwybodaeth, y Ganolfan fydd yn penderfynu a ddylid datgelu rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth honno i unrhyw Ddysgwyr y mae'n ystyried y posibilrwydd o apelio ar eu rhan, lle mae datgeliad o'r fath yn gydnaws â rhwymedigaethau'r Ganolfan o dan ofynion diogelu data a gofynion cyfreithiol eraill.
- 2.9 Ni fydd datgelu ar y cam hwn yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd at ddibenion Amod GQCov3.8, oherwydd bydd yn digwydd ar ôl i ganlyniadau gael eu cyhoeddi. Ni fyddem yn disgwyl i CBAC ddarparu cyngor cyfreithiol i Ganolfan ynghylch datgelu i ddysgwr.
- 2.10 Caiff CBAC dderbyn cais am apêl p'un a wnaed cais am wybodaeth ai peidio.

3 Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod GQCov5

- 3.1 Wrth gyhoeddi canlyniadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn haf 2020, mae'n rhaid bod gan CBAC drefniadau ar waith i Ganolfannau allu apelio'r canlyniadau hynny ar ran un neu fwy o Ddysgwyr.
- 3.2 Gall Canolfan apelio ar sail weithdrefnol, os yw'n credu bod y data anghywir wedi cael ei ddefnyddio i gyfrifo canlyniadau ar gyfer Dysgwyr, neu os oedd gwall gweinyddol wrth i CBAC gyhoeddi canlyniadau. Rhaid i bob un o'r tri sail apêl a restrir yn Amod GQCov 5.1 fod ar gael gan CBAC gyda Chanolfan yn gallu gofyn am apêl ar unrhyw un neu fwy o'r seiliau hynny.
- 3.3 Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag apeliadau ar y sail y defnyddiwyd y data anghywir.

Y data anghywir

- 3.4 Mae'r fframwaith arbennig ar gyfer Cymwysterau GQ yn cynnwys tair enghraifft benodol o ddata a fydd yn cael ei ystyried yn ddata anghywir mewn unrhyw apêl:
 - (a) pan fo Canolfan wedi darparu gwybodaeth anghywir i CBAC mewn perthynas â graddau asesu a threfn restrol (GQCov5.2(a)(i));
 - (b) pan fo CBAC wedi defnyddio set ddata anghywir at ddibenion cyfrifo canlyniadau (GQCov5.2(a)(ii)),
 - (c) pan fo CBAC wedi cyflwyno gwall i'r set ddata a ddefnyddiodd at ddibenion cyfrifo canlyniadau (GQCov5.2(a)(iii)).
- 3.5 Mewn unrhyw apêl lle y dangosir bod un o'r tri gwall hyn wedi digwydd, rhaid i CBAC gymryd camau priodol i gywiro'r gwall; cywiro'r data a chyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu'r data cywir⁷.

Gwybodaeth Anghywir gan y Ganolfan

- 3.6 Bydd angen i Ganolfan sy'n apelio ar y sail ei bod wedi gwneud gwall yn yr wybodaeth a gyflwynodd i CBAC at ddibenion cyfrifo canlyniadau allu dangos, gan ddefnyddio tystiolaeth, ei bod wedi gwneud camgymeriad o'r fath. Mae hyn yn gyson ag apêl o dan unrhyw amgylchiadau eraill, lle mae'r baich prawf ar yr apelydd i gadarnhau bod y penderfyniad perthnasol yn anghywir am y rhesymau a amlinellwyd yn sail yr apêl.

⁷ Ar yr amod bob amser bod yn rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff canlyniadau ar gyfer Dysgwyr nad oeddent yn cydsynio i'r cais am yr apêl berthnasol eu gostwng.

- 3.7 Mae'n arbennig o bwysig yr haf hwn bod CBAC yn gallu gwahaniaethu'n brydlon rhwng gwallau gwirioneddol, a allai, yn nodweddiadol, fod yn gamgymeriadau gweinyddol megis prosesu digidau neu gymysgu Dysgwyr ag enwau tebyg, ac ymdrechion i ddiwygio Graddau Asesu Canolfannau neu wybodaeth drefn restrol drwy ailystyried neu ddiwygio'r dyfarniadau proffesiynol sy'n sail iddynt, sy'n rhywbeth na chaniateir.
- 3.8 Byddwn yn disgwyl i CBAC sicrhau, lle dywedir bod gwall wedi digwydd yn y Ganolfan, fod y broses apelio yn ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau gyflwyno eu tystiolaeth ategol ar y cam cynharaf lle dywedir bod Canolfan wedi gwneud camgymeriad a bod yn rhaid i Ganolfannau esbonio pam fod y data y datganodd Pennaeth y Ganolfan ei fod yn gywir pan gafodd ei gyflwyno gyntaf yn anghywir erbyn hyn. Mae'r broses apelio fyrrach a nodir yn amod GQCov 5.9 yn golygu y bydd CBAC yn gallu dod â'r apêl i ben yn brydlon os yw'n fodlon bod y Ganolfan wedi gwneud camgymeriad.
- 3.9 Ni ddylid defnyddio apêl ar y sail bod Canolfan wedi darparu data anghywir fel modd i Ddysgwr anghytuno â'r dyfarniadau proffesiynol sy'n sail i Radd Asesu Canolfan neu ei safle yn y drefn restrol.
- 3.10 Os oes tystiolaeth bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Ganolfan wedi ei heffeithio gan duedd neu wahaniaethu, neu fod y Ganolfan wedi methu â chymryd i ystyriaeth Addasiadau Rhesymol a fyddai wedi cael eu darparu pe bai arholiadau wedi cael eu cynnal, gall y Ddysgwr wneud cwyn i'r Ganolfan a/neu honiad o gamymddwyn neu gamweinyddu i CBAC. Mae prosesau ar wahân yn golygu y gellir cywiro canlyniadau, lle bo hynny'n briodol, lle y canfyddir bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd⁸.
- 3.11 Byddai honiadau o'r fath yn ddifrifol iawn, ac rydym yn disgwyl iddynt fod yn brin, ond mae hwn yn amddiffyniad pwysig i Ddysgwyr a'u hyder cyffredinol yn nhrefniadau graddio eleni. Yn unol â'n disgwyliadau a amlinellir yn 3.6 uchod, bydd gan achwynydd faich y profi a bydd yn ofynnol iddo ddangos, gan ddefnyddio tystiolaeth, bod tuedd neu wahaniaethu wedi effeithio ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Ganolfan.

Setiau data anghywir

- 3.12 Bydd Canolfannau'n gallu penderfynu o'r wybodaeth a ddatgelir iddynt gyda chanlyniadau, neu yn dilyn cais o dan Amod GQCov4, a yw set ddata anghywir wedi cael ei defnyddio at ddibenion cyfrifo canlyniadau o dan Amod GQCov3.2(a)(i). Mae hyn yn debygol o ddigwydd mewn ystod gyfyngedig o amgylchiadau yn unig, er enghraifft lle mae'r setiau data ar gyfer dwy Ganolfan ag enwau tebyg, neu Rif Canolfan Cenedlaethol tebyg, wedi'u drysu yn ystod y broses o gyfrifo canlyniadau.

⁸ Os dangosir bod canlyniad yn anghywir, gan gynnwys o ganlyniad i gamymddwyn neu gamweinyddu, rhaid i gorff dyfarnu gywiro'r canlyniad hwnnw os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, heb fod angen apêl benodol (Amod Cydnabod Safonol H6.3(b)).

- 3.13 Rydym yn rhagweld y dylai fod yn syml i'r Ganolfan ddangos bod y set ddata anghywir yn debygol o fod wedi cael ei defnyddio ac i CBAC wirio pa ddata a ddefnyddiwyd ganddo ac a oedd y set ddata honno'n gywir ai peidio.
- 3.14 Lle mae CBAC yn cydnabod bod y set ddata anghywir wedi'i defnyddio, byddwn yn disgwyl iddi defnyddio'r broses fyrrach a nodir yn Amod GQCov5.9, lle y bon'n briodol, i ddatrys yrapêl yn brydlon. Gallai defnyddio'r set ddata anghywir yn effeithio ar ganlyniadau ar gyfer yr holl bynciau a gymerir yn y Ganolfan yr effeithiwyd arni. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen i Ganolfan gyflwyno apêl ar wahân ar gyfer pob pwnc lle y defnyddiwyd set ddata anghywir.

Gwallau mewn setiau data

- 3.15 Bydd CBAC yn defnyddio data hanesyddol am Ddysgwyr a data cyrhaeddiad blaenorol at ddibenion cyfrifo canlyniadau, ynghyd â'r Graddau Asesu Canolfannau a'r wybodaeth am drefn restrol a ddarperir gan Ganolfannau.
- 3.16 Er ein bod yn disgwyl i CBAC fod wedi cymryd camau i warchod yn erbyn gwall a bod prosesau sicrhau ansawdd wedi'u sefydlu, mae'r amgylchiadau eithriadol presennol yn golygu ei bod yn bosibl y gall CBAC gyflwyno gwallau i'r data a ddefnyddir wrth brosesu'r wybodaeth berthnasol i'w systemau.
- 3.17 Bydd Canolfan yn gallu nodi o'r wybodaeth a roddwyd gyda chanlyniadau neu a ddatgelir o dan Amod GQCov4 a oes gwahaniaethau rhwng yr wybodaeth a gedwir gan y Ganolfan a'r wybodaeth yn y systemau a ddefnyddir gan CBAC ar gyfer cyfrifo canlyniadau. Byddwn yn disgwyl i CBAC sicrhau bod Canolfan yn cefnogi ei hapêl gyda thystiolaeth yn dangos bod gwahaniaeth o'r fath yn bodoli.
- 3.18 Dylai CBAC adolygu prif ffynonellau'r data y mae'r Ganolfan yn honni bod gwall wedi'i gyflwyno iddynt. Bydd y rhain, fely bo'n berthnasol: a ddefnyddiwyd ar gyfer safoni:
- (a) y Graddau Asesu Canolfannau a'r wybodaeth am y drefn restrol a ddarparwyd yn wreiddiol gan y Ganolfan, neu
 - (b) ffynhonnell y canlyniadau hanesyddol neu'r data cyrhaeddiad blaenorol.
- 3.19 Os bydd CBAC yn penderfynu ei fod wedi cyflwyno gwall i unrhyw ran o'r data perthnasol, byddwn yn disgwyl iddo ddefnyddio'r prosesau byrrach a nodir yn Amod GQCov5.9, a lle y bo'n briodol, i gwblhau'r apêl yn brydlon, cywiro'r data, a lle bo angen, cyhoeddi unrhyw ganlyniadau diwygiedig⁹.
- 3.20 Mewn achos lle mae Canolfan wedi cyflwyno apêl ar y sail bod CBAC wedi cyflwyno gwall yn y set ddata a gyflwynwyd iddynt, os yw CBAC yn nodi bod y gwall honedig yn bodoli, mewn

⁹ Ar yr amod bob amser bod yn rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff canlyniadau ar gyfer Dysgwyr nad oeddent yn cydsynio i'r cais am yr apêl berthnasol eu gostwng.

gwirionedd, pan gyflwynwyd y wybodaeth honno iddo, gellir rhoi cyfle i'r Ganolfan ddiwygio ei hapêl a dangos tystiolaeth bod ei chyflwyniad cychwynol yn cynnwys gwall (GQCov5.2(a)(i)).

3.21 Mae Amod GQCov5.2(b) yn gwahardd cyflwyno apêl ar un o'r seiliau canlynol:

- (a) gwall sy'n bodoli eisoes yn y data gwreiddiol ar ganlyniadau hanesyddol neu gyrhaeddiad blaenorol;
- (b) nad oedd canlyniadau Dysgwyr penodol a oedd wedi'u cofrestru â'r Ganolfan yn cyfateb â'u data cyrhaeddiad blaenorol at ddibenion cyfrifo canlyniadau.

Enghreifftiau eraill o'r data anghywir – achosion eithriadol

3.22 Nid yr enghreifftiau penodol yn Amod GQCov5.2(a) yw'r unig amgylchiadau lle y gallai CBAC ddod i'r casgliad ei fod wedi defnyddio'r data anghywir i gyfrifo canlyniadau, er ein bod yn rhagweld y bydd enghreifftiau eraill yn brin.

3.23 Mae rhai amgylchiadau eithriadol lle gellid dangos drwy apêl bod defnyddio set ddata ddiodyfyn i gyfrifo canlyniadau yn gyfystyr â defnyddio'r data anghywir oherwydd rhyw ffactor eithriadol sy'n tanseilio'r dybiaeth mai'r set ddata ddiodyfyn yw'r sail fwyaf priodol i gyfrifo canlyniadau ar gyfer Dysgwyr y Ganolfan. Byddai hyn yn gofyn am Ganolfan i gadarnhau nad yw ei carfannau blaenorol o Ddysgwyr yn ddigon cynrychioliadol o'r garfan 2020 i lywio'r gwaith o gyfrifo'r canlyniadau mewn dull dibynadwy.

3.24 Ni fydd y dybiaeth yn cael ei thanseilio drwy dystiolaeth oddrychol neu dystiolaeth nad yw ond yn berthnasol i berfformiad posibl carfan 2020, pe bai arholiadau wedi cael eu cynnal. Ni ellir cyflwyno apeliadau ar sail adroddiadau arolygiadau, dewisiadau cwricwlwm neu newidiadau i staff addysgu, canlyniad profion safonedig, ffug arholiadau neu dystiolaeth arall sydd gan y Ganolfan am berfformiad posibl Dysgwyr eleni yn unig. Ni ddylai apêl o dan Amod GQCov 5.1(b) ychwaith gael ei chaniatáu ar y sail y byddai'r garfan 2020 wedi parhau unrhyw duedd tuag i fyny o ran cyrhaeddiad Dysgwyr mewn Canolfan benodol.

3.25 Yn hytrach, gall y dybiaeth gael ei disodli gan dystiolaeth –

- (a) bod rhywbeth wedi digwydd l garfan 2020 y Ganolfan, neu wedi digwydd i garfan gynharach yn y Ganolfan (ac nid i garfan 2020), sy'n dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng y garfan 2020 a'r carfannau mewn blynyddoedd blaenorol;
- (b) na fyddai'r gwahaniaeth hwnnw fel arall yn cael ei nodi a'i ddatrys drwy broses a nodir yn y gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod GQCov3.2(a)¹⁰, a

¹⁰ Er enghraifft, gan y bydd y broses safoni yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol, ni fydd gwahaniaeth o sylwedd mewn cyrhaeddiad blaenorol rhwng carfannau yn arwain at resymau dros apelio.

- (c) bod natur y gwahaniaeth hwnnw yn golygu bod defnyddio data mewn perthynas â'r garfan gynharach yn sail amhriodol i gyfrifo canlyniadau ar gyfer carfan 2020.

3.26 Er nad yw'n gyflawn o reidrwydd, mae'n debygol y bydd modd nodi'r gwahaniaeth angenrheidiol mewn amgylchiadau fel:

(a) lle bu newid strwythurol mawr o ran trefniadau mewn Canolfan, sy'n effeithio'n gyntaf ar garfan 2020, er enghraiff:

- (i) ysgol sydd, ar ôl derbyn disgyblion cymysg yn hanesyddol, wedi dod yn ysgol un rhyw yn 2020, neu ysgol un rhyw a ddaeth yn ysgol gymysg, lle mai carfan 2020 yw'r garfan yr effeithir arno gyntaf i ddilyn Cymwysterau GQ (ac a gadwodd ei Rhif Canolfan Cenedlaethol blaenorol¹¹), neu
- (ii) ysgol sydd wedi sefydlu rhaglen dysgu carlam ar gyfer Dysgwyr galluog iawn mewn blynyddoedd ar wahân i B11 a B13 ac sydd, am y tro cyntaf, yn cofrestru nifer o'r Dysgwyr hynny ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2020,

(b) ble bo Canolfan wedi profi newid o ran llywodraethu, trefniadaeth neu arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod perthnasol a bod tystiolaeth o well canlyniadau TGAU, UG, Safon Uwch neu Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn y Ganolfan ar ôl y newid hwnnw, sy'n dangos nad perfformiad mewn arholiadau yn y Ganolfan yn y flwyddyn neu flynyddoedd cyn y newid efallai yw'r sail fwyaf priodol i ddylanwadu'n ddibynadwy ar gyfrifo'r canlyniadau;

(c) Canolfan lle amharwyd yn sylweddol ar addysgu a dysgu un neu fwy o'r carfannau a gynhwyswyd yn y data hanesyddol am ran estynedig o'r flwyddyn academaidd gan un neu ragor o ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau eithriadol neu arwyddocaol, ac nad oeddent yn amharu ar addysgu a dysgu carfan 2020;

(d) mae siâp dosbarthiad Graddau Asesu Canolfan carfan 2020 yn ddigon gwahanol i siâp y dosbarthiad o ganlyniadau'r carfannau blaenorol fel eu bod yn dangos nad perfformiad mewn arholiadau yn y Ganolfan mewn blynyddoedd blaenorol fyddai'r sail fwyaf priodol i ddylanwadu'n ddibynadwy ar y gwaith o gyfrifo canlyniadau ar gyfer Dysgwyr y Ganolfan.

3.27 Yn yr enghreifftiau uchod, byddem yn disgwyl i Ganolfan ddarparu tystiolaeth ar ffurf data ystadegol am garfan 2020 a'r carfannau blaenorol yn y Ganolfan. Dyma'r math o dystiolaeth

¹¹ Lle arweiniodd newid o'r fath at newid yn y Rhif Canolfan Cenedlaethol, bydd CBAC wedi ystyried y newid yn y trefniadau fel rhan o'r broses safoni ystadegol.

glir a gwrthrychol y credwn sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu gwahaniaeth sylweddol rhwng carfannau. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle mae CBAC yn ystyried ei bod yn briodol derbyn tystiolaeth glir a gwrthrychol ar ffurf gwybodaeth am ddigwyddiadau y gellid eu dangos yn wrthrychol ac yn ystadegol i awgrymu gwahaniaeth sylweddol rhwng y carfannau perthnasol.

- 3.28 Pan fydd gwahaniaeth sylweddol wedi'i sefydlu, bydd angen i CBAC ystyried a oedd y gwahaniaeth sylweddol yn ddigonol i ddisodli'r dybiaeth bod perfformiad y garfan(au) blaenorol yn gynrychioliadol o berfformiad tebygol carfan 2020 pe bai arholiadau wedi'u cynnal. Dim ond os caiff y dybiaeth honno ei disodli y bydd ystyried perfformiad y garfan gynharach yn gyfystyr â defnyddio'r data anghywir.
- 3.29 Yn ymarferol, bydd y dybiaeth yn debygol o gael ei disodli lle mae tystiolaeth dechnegol yn dangos y byddai'r ffactor gwahaniaethol yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau a gyfrifwyd ar gyfer carfan 2020 i raddau digon mesuradwy. Bydd modd sefydlu hyn dim ond mewn amgylchiadau lle gellir cyfrifo set o ganlyniadau sy'n ystyried dylanwad y ffactor gwahaniaethol, er enghraifft:
- (a) mewn achosion o newid strwythurol a/neu ddemograffig mawr, gall fod yn bosibl addasu'r model ystadegol i adlewyrchu cyfansoddiad carfan 2020, yn seiliedig ar foddelu cenedlaethol i garfannau sydd â'r cyfansoddiad hwnnw;
 - (b) lle bu newid o ran arweinyddiaeth, llywodraethu neu drefniadaeth sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell sy'n cynrychioli'n well berfformiad tebygol carfan 2020, gall fod yn bosibl addasu'r model ystadegol i hepgor peth o'r data blaenorol; a
 - (c) os amharwyd yn sylweddol ar addysgu a dysgu carfan gynharach, neu garfannau, am gyfnod hir gan ddigwyddiadau eithriadol neu arwyddocaol, gallai fod yn bosibl defnyddio data o flwyddyn wahanol neu, os nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol, safoni canlyniadau fel ar gyfer Canolfan heb ddata hanesyddol.
- 3.30 Dylai apêl o'r math hwn lwyddo dim ond lle gall CBAC nodi dull i safoni canlyniadau sy'n caniatáu ar gyfer y gwahaniaeth sylweddol ac y mae'n ystyried sy'n fwy tebygol o gynhyrchu canlyniadau cywir na'r canlyniadau cychwynnol a gyfrifwyd. Os nad yw'r canlyniadau diwygiedig yn fwy tebygol o fod yn gywir na'r canlyniadau cychwynnol, ni fydd sail ddigonol i ddod i'r casgliad bod y data anghywir wedi effeithio ar y canlyniadau cychwynnol.